**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/4099/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach a bydd Estonia a Latfia yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Bydd Aruba, Bhutan, Mongolia, Timor-Leste ac Ynysoedd y Môr Tawel Samoa, Kiribati, Micronesia, Tonga, Vanuatu ac Ynysoedd Solomon yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.

Bydd y cyfyngiadau penodol sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd ar bobl sy'n teithio o Ddenmarc ac aelodau o'u haelwydydd yn cael eu codi. Bydd y gwaharddiad ar awyrennau, cychod a llongau sy'n teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd yn cael ei godi hefyd. Ni fydd Denmarc, fodd bynnag, yn cael ei chynnwys ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly, bydd gofyn i bobl sy'n teithio o Ddenmarc barhau i hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu hychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt wedi'u heithrio rhag y gofynion hunanynysu at ddibenion cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau yn ymwneud â’r eithriadau sectoraidd o fewn y prif Reoliadau.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi’r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd